

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD



Canllaw i Fyw yn
Llety'r Brifysgol

Residence Life Team

Y Tu Mewn I'r Clawr Blaen

Mae croeso cynnes yn eich disgwyl	3	Llys Senghennydd	18
Rhestr wirio'r neuaddau preswyl	5	Neuadd Senghennydd	19
Eich gwarant o lety	6	Tai Myfyrwyr	20
Tîm Bywyd Preswyl	8	Tal-y-bont	21
Neuadd Aberconwy	10	Llys Tal-y-bont	22
Neuadd Aberdâr	11	Porth Tal-y-bont	23
Llys Cartwright	12	Gogledd Tal-y-bont	24
Tŷ Clodien	13	De Tal-y-bont	24
Neuadd Colum	14	Neuadd y Brifysgol	25
Neuadd Gordon	15	Mapiau o'r campws	26
Neuadd Hodge	16		
Neuadd Roy Jenkins	17		



Prifysgol Caerdydd

eich cartref oddi cartref

Bydd mynd i'r brifysgol yn gwneud ichi gyffroi a bod yn nerfus ar yr un pryd, felly rydyn ni wrth law i'ch cefnogi chi bob cam o'r ffordd. Pan fyddwch chi'n ymuno â ni, ein nod yw eich helpu i ddod o hyd i'ch cartref oddi cartref ac mae ystod o opsiynau llety cyfforddus i ddiwallu eich anghenion.

Mae pob un o'r neuaddau o fewn pellter cerdded neu feicio i ganol y ddinas a bywyd y myfyrwyr. Mae 16 o breswylfeydd ar draws campws Cathays a campws Parc y Mynydd Bychan, sy'n golygu bod dim ots beth rydych chi'n ei astudio, bydd gennych chi le i fyw mewn lle sy'n gyfleus i chi.

Mae Caerdydd yn ddewis synhwyrol o ran eich cyfrif banc hefyd. Rydyn ni'n ymdrechu i wneud ein llety yn fforddiadwy ichi, a cheir opsiynau sy'n addas i bawb. Does dim ots pa lety rydych chi'n ei ddewis – byddwch chi'n ymuno â chymuned glòs a bywiog lle byddwch chi'n cwrdd â ffrindiau oes. **Yn ddiweddar, barnwyd mai Caerdydd yw dinas fwyaf cyfeillgar y DU** (Conde Nast, 2023) – Dewch i ymweld â ni a chewch weld pam.



Sganiwch y côd QR i
gael gwybod rhagor.



Llety'r Brifysgol

beth yw barn ein myfyrwyr

Mae Ellie, ein myfyrwraig sy'n blogio, wedi llunio rhestr wirio gynhwysfawr o'r hyn sydd ei angen arnoch chi wrth symud i lety'r Brifysgol am y tro cyntaf.

Rwy'n cofio'r teimlad hwnnw'n dda iawn.

Y teimlad o banig llwyr cyn dod i'r brifysgol wrth feddwl am beth fyddai ei angen arna i yn fy ystafell yn y neuadd breswyl. Afraid dweud, doedd dim angen poeni am ddim gan mai dim ond 2 awr i ffwrdd o'r Brifysgol ro'n i'n byw a byddwn i gartref neu'n cael ymwelwyr o gartref bob rhyw ychydig o wythnosau. Fodd bynnag, rwy wedi llunio rhestr o'r holl eitemau hanfodol y bydd eu hangen arnoch chi pan fyddwch chi'n symud oddi cartref am y tro cyntaf. Os daw'r gwaethaf a'ch bod yn anghofio rhywbeth, peidiwch â phoeni. Credwch neu beidio, ceir siopau yng Nghaerdydd (a digon ohonynt nhw!)."

Ellie's Uni checklist

- | | |
|---------------------------------------|--|
| ✓ Dillad Gwely | ✓ Dogfennau hanfodol – llythyrau cadarnhau, pasbort, dogfennau adnabod |
| ✓ Tywelion | |
| ✓ Eitemau cegin | |
| ✓ Cambrenni dillad (un da i'w gofio) | |
| ✓ Gwifren estyn | ✓ Lamp ddesg |
| ✓ Ymbarél (hollbwysig yng Nghaerdydd) | ✓ Seinydd a chlustffonau i chwarae cerddoriaeth |
| ✓ Offer ysgrifennu | ✓ Gwasgarwr arogl |
| ✓ Argraffydd | ✓ Dyddiadur |
| ✓ Pecyn cymorth cyntaf | ✓ Bocsys a bagiau storio mawr |
| ✓ Nwyddau ymolchi | ✓ Gwerslyfrau |
| ✓ Gwefrwy | ✓ Llyfrau i'w darllen |
| ✓ Gliniadur | ✓ Sychwr gwallt |
| ✓ Nwyddau glanhau | ✓ Drych bach |
| ✓ Dillad | ✓ Potel ddŵr |
| ✓ Esgidiau | ✓ Bag golchi dillad |
| ✓ Bwrdd pinnau a phinnau | ✓ Bag cefn |
| ✓ Eitemau personol megis lluniau | ✓ Bwyd ar gyfer y dyddiau cyntaf |

Mae eich llety wedi'i warantu

Popeth sydd i'w wybod

Myfyrwyr israddedig

Os oes gennych chi gynnig cadarn neu gynnig wrth gefn a'ch bod yn bodloni ein terfynau amser, byddwn ni'n gwarantu lle ichi yn llety'r Brifysgol.

Byddwch chi'n byw mewn ystafell i un person mewn neuadd breswyl lle bydd israddedigion eraill yn y flwyddyn gyntaf pan ddechreuwch eich astudiaethau gyda ni yn y Brifysgol.

Myfyrwyr Ôl-raddedig

Rydyn ni'n gwarantu lle deiliadaeth sengl yn llety'r Brifysgol i ymgeiswyr ôl-raddedig rhyngwladol os ydyn nhw'n bodloni ein terfynau amser ac yn gwneud rhagdaliad na ellir ei ad-dalu.*

*Ar gyfer sesiwn 2024/25, mae'r manylion llawn am ein gwarant llety a'r dyddiadau cau cysylltiedig i'w gweld ar ein gwefan: www.cardiff.ac.uk/cy/study/accommodation

Teuluoedd a pharau

Mae nifer gyfyngedig o fflatiau a stiwdios y Brifysgol ar gael i fyfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau.



Eich dewis chi

Mae gennym ni ystod o opsiynau llety ichi gan fod y neuaddau preswyl mewn nifer o leoliadau ar draws campws Parc Cathays a champws Parc y Mynydd Bychan - felly does dim ots ble byddwch chi'n astudio, bydd llety ar gael sy'n gyfleus i chi. Mae gennyn ni lawer o opsiynau sydd ag ystafell ymolchi en-suite ac mae'r rhan fwyaf o'n hadeiladau o fewn pellter cerdded neu feicio i Undeb y Myfyrwyr, canol dinas Caerdydd a'n hystod o gyfleusterau.

Unwaith y byddwch chi wedi cael cynnig lle i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, cewch fanylion am sut i wneud cais ar-lein am le yn llety'r Brifysgol. Gallwch wneud dewisiadau o ran llety. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu y byddwch yn cael eich dewisiadau.

Gwybodaeth am anabledd/ gwybodaeth feddygol

Addaswyd ambell i lety yn benodol ar gyfer myfyrwyr â chyflwr meddygol/anabledd. Rydyn ni hefyd yn barod i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl.

**Yn ôl pleidlais, Caerdydd
yw'r ail ddinas fwyaf
fforddiadwy i fyfyrwyr
(Mynegai Costau Byw
Myfyrwyr NatWest 2023**

Siaradwyr Cymraeg

Ceir fflatiau yn Llys Senghennydd a Gogledd Tal-y-bont ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sy'n dymuno byw yn yr un neuadd er mwyn cymdeithasu yn y Gymraeg.

LHDT+

Neilltuyd rhai fflatiau yng Ngogledd Tal-y-bont a De Tal-y-bont ar gyfer myfyrwyr LHDT+ a hoffai fyw gyda myfyrwyr LHDT+ eraill.

Byw'n dawel

Cewch ofyn am ystafell mewn fflat/tŷ i'w rannu gyda myfyrwyr eraill a hoffai fyw mewn adeilad tawel.

Ffioedd llety

Math o lety (ar gyfer 2024/25)	Ffi wythnosol ar gyfartaledd
Wedi'i arlwyio'n rhannol: ensuite	£169
Wedi'i arlwyio'n rhannol: ystafell ymolchi a rennir	£148 - £158
Hunanarlwyio: ensuite	£130 - £165
Hunanarlwyio: ystafell ymolchi a rennir	£130 - £141

Mae'r rhent yn daladwy drwy Ddebyd Uniongyrchol fesul tri rhandaliad (fel arfer ym mis Hydref, Ionawr a Mai). Mae pob rhent yn cyfeirio at lety deiliadaeth sengl.



Neuaddau preswyl preifat
Efallai y bydd trefniadau atgyfeirio yn eu lle o ran darparwyr preifat er mwyn ychwanegu at lety'r Brifysgol, felly ewch i'r tudalennau gwe 'Gweld y llety' i gael rhagor o fanylion: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/accommodation**

Tîm Bywyd Preswyl

Diben Tîm Bywyd Preswyl yw gwella profiad y myfyrwyr yn llety'r Brifysgol

Y tim

Tîm o fyfyrwyr a staff sydd eisiau gofalu eich bod yn cael yr amser gorau posibl wrth ymgartrefu yn eich llety o'r diwrnod cyntaf un yw Tîm Bywyd Preswyl. Bydd y tîm yn gwneud eu gorau glas i gynnig croeso cynnes a'ch helpu i ymgartrefu â bywyd y Brifysgol mewn ffordd ddiffwdan. Bydd y tîm yno i'ch cyfarch pan fyddwch chi'n cyrraedd y Brifysgol ac yn eich helpu i ddod o hyd i'ch ystafell.

“Roedd Bywyd Preswyl yn gartref oddi cartref i mi. Un o'r agweddau anoddaf ar symud i wlad newydd oedd y diwylliant gwahanol.

Fodd bynnag, diolch i bawb yn Nhîm Bywyd Preswyl, cwrddais i â phobl ro'n i'n gallu uniaethu â nhw o ran cyrsiau a diwylliannau, ond ar ben hynny gwnes i ffrindiau gwych ro'n i'n gallu meithrin cysylltiadau ystyrlon â nhw, gan wneud fy mlwyddyn gyntaf yn un gyfforddus iawn.”

Sajid

Bydd anrhegion gan y Tîm yn eich fflat a'ch cegin i'ch croesawu. Manteisiwch ar y talebau lleol a'r nwyddau rhad ac am ddim, yn ogystal â'r calendr o ddigwyddiadau i lasfyfyrwyr i'ch helpu i ymgartrefu, cael hwyl a gwneud ffrindiau. A pheidiwch â cholli'r holl fwyd am ddim!

Rydych chi'n bwysig i Dîm Bywyd Preswyl ac maen nhw eisiau gweithio gyda chi i greu ymdeimlad cryf o gymuned yn eich neuaddau. Bydd ystod eang o ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol, er enghraifft nosweithiau gemau bwrdd a chrefftau a choffi os ydych chi eisiau cael noson dawel gartref. Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth gan gyd-fyfyrwyr hefyd, ac yn gallu eich cyfeirio at y Tîm Cymorth a Lles Myfyrwyr os bydd angen. Mae'r Tîm yma i'ch cefnogi ym mha ffordd bynnag y bydd ei hangen arnoch chi.





Neuadd Aberconwy

Mae Neuadd Aberconwy ddrws nesaf i Ysgol Busnes Caerdydd ac mae'n daith gerdded fer i Adeilad John Percival (ar gyfer pynciau'r dyniaethau), Ysgol y Gyfraith Caerdydd a'r Prif Gampws.

Cyfeirnod map

58

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.25 milltir



Cyfleusterau

- 72 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu (i'w rhannu'n bennaf rhwng pob pâr o ystafelloedd)
- Hunanarlwyo, mewn grwpiau o fflatiau o 3-6 myfyriwr a rhannu cegin/ardal fwyta
- Llety hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ar y llawr gwaelod
- Opsiwn byw'n dawel
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Golchi dillad

Agosaf

Siop: Heol Maendy

Bwyd cyflym: Canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Sied feics: Neuadd Colum



Mae Neuadd Aberconwy yn agos iawn at y siopau a'r cyfleusterau. Dim ond 5 munud sydd eu hangen i gyrraedd siopau neu fariau ac mae cyfleusterau trafndiaeth gerllaw hefyd. Mae cymdeithasu a dod o hyd i bobl sy'n rhannu'r un diddordebau yn beth rhwydd i'w wneud."

Ayasta

Neuadd Aberdâr

Mae Neuadd Aberdâr yn neuadd draddodiadol i ferched, wrth ymyl y prif gampws, ac mae'n cynnig llety wedi'i arlwyyo yn rhannol a llety hunanarlwyyo.

Wedi'i adeiladu yn 1893, mae nodweddion cyfnod diddorol yn parhau i fod yn y neuadd a rhywfaint o swyn Fictoriaidd.

Cyfeirnod map

60

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.2 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.5 milltir



Cyfleusterau

- 132 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu
- Hunanarlwyyo ac arlwyyo rhannol
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- 2 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw
- Llyfrgell Cerddoriaeth
- Gardd
- Ystafell gyffredin/lolfa deledu
- Ystafell golchi dillad
- Cymdeithas Myfyrwyr Ystafell Gyffredin
- Sied feics

Agosaf

Siop: Maindy Road

Bwyd cyflym: Canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon:

Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd



Roedd naws gyffredinol Neuaddau Aberdâr yn rhagorol, rhaid dweud. Roedd pensaernïaeth yr adeilad yn brydferth. Mae'r ystafelloedd yn hŷn. Ac mae'n dawl iawn. Roedd yn lle hyfryd i weithio ynddo a theimlo bod gennych chi eich lle eich hun".

Hannah

Llys Cartwright

Mae Llys Cartwright yn neuadd hunanarlwyo wedi'i lleoli mewn ardal breswyl.

Mae'r neuadd yn cynnig llety i 172 o

Cyfeirnod map

57

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✓
Teuluoedd	✓
Prif Adeilad	1 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.5 milltir



Cyfleusterau

- 15 o fflatiau gyda 6 ystafell wely deiliadaeth sengl a hyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu (i'w rhannu rhwng pob pâr o ystafelloedd)
- 16 o dai gyda rhwng 4 a 6 ystafell wely deiliadaeth sengl a chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- 4 o fflatiau ar gyfer cyplau/teuluoedd
- Opsiwn di-alcohol
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Ystafell golchi Dillad
- Sied feiciau
- 34 o fannau parcio

Agosaf

Siop: Heol Crwys

Bywd cyflym: Heol Crwys

Bar: Heol Crwys

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd



Ro'n i wrth fy modd yn byw ychydig ymhellach o'r Brifysgol yn Neuadd Cartwright, ac roedd y pellter yn caniatáu imi wahanu byd gwaith a chartref. Yn y bore, roedd gen i ychydig o amser i feddwl neu wrando ar gerddoriaeth a pharatoi at y diwrnod."

Beth

Tŷ Clodien

Mae Tŷ Clodien wedi'i leoli drws nesaf i Gampws Parc Iechyd y Brifysgol gan gynnig lleoliad delfrydol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau nyrsio a gofal iechyd.

Noder:

Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Neuadd Breswyl breifat hon sydd yn eiddo i Unite, ac yn cael ei rheoli ganddynt

Cyfeirnod map

50

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	1.25 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	0.25 milltir



Cyfleusterau

- 184 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchio i'w rhannu a gwely 3/4 (4 troedfedd)
- 7 stiwdio (hunangynhwysol)
- Hunanarlwy, wedi'u grwpio i fflatiau o 4-6 o fyfyrwyr
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Ystafell golchi dillad
- Rheseli beics

Agosaf

Siop: Heol yr Eglwys Newydd

Bwyd cyflym: Heol yr Eglwys Newydd

Bar: Heol yr Eglwys Newydd

Cyfleusterau chwaraeon: Campws Parc y Mynydd



Roedd Tŷ Clodien yn lle gwych i fyw gan ei fod yn agos iawn at yr ysbyty lle roedd y darlithoedd. Roedd y lleoliad hefyd yn ddelfrydol gan ei fod yn agos at y siopau lleol ac roedd mynd i ganol y ddinas yn rhwydd iawn".

Steph

Neuadd Colum

Mae Neuadd Colum yn neuadd hunanarlwyo sydd wedi'i lleoli dros y ffordd i Ysgol Busnes Caerdydd a thaith gerdded fer o ardal y Prif Gampws. Mae'r neuadd wedi'i rhannu yn 14 o fflatiau, bob un ohonynt yn darparu llety ar gyfer 8 o fyfyrwyr.

Cyfeirnod map

59

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.25 milltir



Cyfleusterau

- 112 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl
- Mae gan yr holl ystafelloedd gyfleusterau cawod/toiled ensuite
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Hunanarlwyo, wedi'u grwpio i fflatiau o 8 o fyfyrwyr
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- 4 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw

Agosaf

Siop: Heol Maendy


Bwyd cyflym: Canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon:

Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Ystafell golchi dillad: Neuadd Aberconwy



Roedd Neuadd Colum yn wych gan fy mod i'n hoffi bod yng nghanol myfyrwyr ac roedd yn golygu fy mod i'n gallu cwrdd â llawer o bobl newydd.

Mae'r cyfleusterau'n dda ac roedd gen i bopeth roedd ei angen arna i. Mae Neuadd Colum yn brofiad heb ei ail!"

Vini

Neuadd Gordon

Mae Neuadd Gordon yn neuadd arlwyyo rhannol.

Mae'n neuadd fechan wedi'i lleoli mewn ardal breswyl ac mae'n arbennig o gyfleus i'r rhai sydd yn astudio mathemateg, ffiseg a seryddiaeth, peirianeg neu gyfrifiadureg.

Cyfeirnod map

64

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	2 milltir



Cyfleusterau

- 80 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl ensuite
- 11 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Darperir prydau gyda'r nos dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ym mwyty Trewithick gerllaw yn Adeiladau'r Frenhines
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- 1 ystafell astudio gydag ystafell ymolchi ensuite hygrych
- Ystafell golchi dillad
- Sied feics


Agosaf

Siop: Heol Salisbury

Bwyd cyflym: Canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon:
Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad
Corfforol Prifysgol Caerdydd



Yn Neuadd Gordon rydych chi ond 5 munud i ffwrdd ar droed o ganol y ddinas a 10 munud o Undeb y Myfyrwyr felly mae popeth y bydd ei angen arnoch chi ar garreg y drws!

Emma

Neuadd Hodge

Mae Neuadd Hodge yn cynnig llety hunanarlwyo i fyfyrwyr ôl-raddedig yn unig.

Mae'n neuadd fechan sydd yn cynnig llety i 60 o fyfyrwyr yn unig ac mae'n agos i'r prif gampws.

Cyfeirnod map

61

Israddedigion	✗
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.25 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.25 milltir



Cyfleusterau

- 12 o fflatiau gyda 4-6 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl
- Cyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu (i'w rhannu rhwng pob pâr o ystafelloedd)
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Hunanarlwyo
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Ystafell golchi dillad
- Sied feics
- 9 o fannau parcio

Agosaf

Siop: Heol Maendy

Bwyd cyflym: Canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr / Heol Woodville

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd



Byddwn i yn bendant yn

argymhell Neuadd Hodge gan ei bod yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, yn ogystal â bod yn ffordd hawdd o ddod yn rhan o fywyd myfyrwyr a byw'n annibynnol".

Matt

Neuadd Roy Jenkins

Mae Neuadd Roy Jenkins yn neuadd breswyl hunanarlwyo fechan lai na milltir i ffwrdd o'r prif gampws.

Mae'n agos at ardal siopa leol dda sy'n cynnwys dwy archfarchnad.

Cyfeirnod map

56

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✓
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.75 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1 milltir



Cyfleusterau

- 6 o fflatiau gyda 5 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Rhannu cyfleusterau ystafell ymolchi - israddedig yn unig
- 12 stiwdio - cyplau ac ôl-raddedigion yn unig
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Sied feics
- 20 o fannau parcio

Agosaf


Siop: Heol Crwys

Bwyd cyflym: Heol Crwys

Bar: Heol Crwys

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Ystafell golchi dillad: Llys Cartwright



Mae'n berffaith i bicio i'r siopau neu i nôl bwyd gan fod popeth ar hyd yr un ffordd. Peth braf hefyd yw bod cymaint o le yn yr ystafelloedd."

Molly

Llys Senghennydd


Mae Llys Senghennydd yn neuadd breswyl fawr yn agos i ardal y prif gampws, Undeb y Myfyrwyr a chanol y ddinas.

Mae'n hynod o gyfleus i fyfyrwyr sydd yn astudio mathemateg, peirianeg, ffiseg a seryddiaeth neu gyfrifiadureg.

Cyfeirnod map

63

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



Cyfleusterau

- 490 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl ar gyfer myfyrwyr israddedig wedi'u grwpio i fflatiau o 5 myfyriwr gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu
- Rhai fflatiau wedi'u cadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg sydd yn dymuno cael eu grwpio gyda'i gilydd
- 120 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig gyda chyfleusterau toiled/cawod ensuite wedi'u grwpio i fflatiau o 5 myfyriwr
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Opsiwn byw'n dawel
- Opsiwn di-alcohol
- Hunanarlwyo neu wedi arlwyo'n rhannol
- 4 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw
- Opsiwn Ôl-raddedig 'a Mwy'
- Ystafell golchi dillad
- Sied feics

Agosaf

Siof: Heol Salisbury

Bwyd cyflym: Heol Salisbury, canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Fy hoff beth am Lys Senghennydd oedd ei leoliad! Roedd yn agos at y darlithoedd a'r llyfrgelloedd. Roedd yn agos iawn at glybiau'r undeb myfyrwyr yn ogystal ag at glybiau canol y ddinas".

Martina

Neuadd Senghennydd

Mae Neuadd Senghennydd yn neuadd breswyl wedi'i harlwyio'n rhannol o fewn pellter byr iawn oddi wrth y prif gampws ac mae'n ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sydd yn astudio mathemateg, ffiseg a seryddiaeth, peirianeg neu gyfrifiadureg.

Cyfeirnod map

62

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✓
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



Cyfleusterau

- 102 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau cawod/toiled ensuite
- 1 stiwdio addas ar gyfer cwpwl
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Opsiwn byw'n dawel
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Darperir prydau gyda'r nos ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ym mwyty Trevithick gerllaw yn Adeiladau'r Frenhines
- 5 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw
- Sied feiciau

Agosaf

Siop: Heol Salisbury

Bwyd cyflym: Heol Salisbury, canol y ddinas

Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffithrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Ystafell golchi dillad: Llys Senghennydd



Rwy'n hoff iawn

o leoliad Neuadd Senghennydd, mae'n hynod o agos at brif adeilad y Brifysgol ac yn agos iawn at ganol y ddinas.

Sneha

Tai Myfyrwyr

Mae gan y Brifysgol nifer o dai myfyrwyr wedi'u lleoli ar Colum Road, Colum Place ac yn ardaloedd Cathays a'r Rhath.

Maen nhw wedi eu lleoli'n gyfleus gerllaw'r prif gampws.

Cyfeirnod map

63

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



Cyfleusterau

- Tai ar gyfer 4 i 11 o fyfyrwyr
- 364 o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- 6 o fflatiau ar gyfer cyplau/teuluoedd
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi

Agosaf

Siop: Heol Maendy / Ffordd Salisbury

Bwyd cyflym: Canol y ddinas


Bar: Undeb y Myfyrwyr

Cyfleusterau chwaraeon: Canolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol Prifysgol Caerdydd

Ystafell golchi dillad: Neuadd Aberconwy / Neuadd Hodge

Roeddy cyfleusterau yn nhŷ'r myfyrwyr yn wych - ystafelloedd mawr, cegin â llawer o offer a thŷ cyfforddus i fyw ynddo! Rydych chi'n gallu mwynhau mwy o annibyniaeth a rhyddid ac mae canol y ddinas ar garreg y drws.

Hallam



Tal-y-bont

Tal-y-bont yw'r mwyaf o neuaddau preswyl hunanarlwyo'r Brifysgol. Mae'n agos at barciau mawr a thaith gerdded neu feicio fer i fwyafrif yr adeiladau academiaidd, gan gynnwys Campws Parc y Mynydd Bychan.



Cyfleusterau ar y safle

- Man astudio/cymdeithasol
- Ystafell golchi dillad
- Sied feics
- Loceri Amazon

Pentref Hyfforddi Chwaraeon Prifysgol Caerdydd

- Ystafell Ffitrwydd
- Neuaddau chwaraeon sy'n gartref i fwyafrif y clybiau chwaraeon dan do
- Amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon awyr agored dan lifoleuadau

Agosaf

Archfarchnadoedd mawr (Tesco ac Aldi), KFC a bwyty McDonalds y drws nesaf i Borth Tal-y-bont/ Gogledd Tal-y-bont.

Archfarchnad fach a Subway ar Heol y Gogledd hefyd.



Llys Tal-y-bont



Cyfeirnod map

55

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✓
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.75 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.5 milltir

Cyfleusterau

- 511 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ensuite
- Fflatiau ar gyfer 4-7 o fyfyrwyr
- Cegin/ardal fwyta/lolfa i'w rhannu
- Llety hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Mae'r holl ystafelloedd yn addas ar gyfer pobl gyda nam ar y clyw
- 2 dy ar gyfer teuluoedd

“Rwy mor falch imi ddewis Llys Tal-y-bont ar gyfer fy mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol! Gan fod cymaint o fyfyrwyr ar safle Tal-y-bont, peth rhwydd iawn yw gwneud ffrindiau! Mae'r fflat ei hun hefyd yn berffaith i gymdeithasu, diolch i'w chegin/lolfa fawr ac mae digon o le yn yr ystafelloedd, lle i astudio, wfi rownd y ril ac ystafell ensuite!”

Katie

Porth Tal-y-bont



Cyfeirnod map

52

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	1.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.5 milltir

“Os ydych chi eisiau lle i astudio a gallu canolbwyntio lle ceir hefyd ystafelloedd gwych a rhai en-suite, a chael mwynhau bywyd cymdeithasol Tal-y-bont y de a’r gogledd – mae Tal-y-bont yn wych.”

Courtney

Cyfleusterau

- 179 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ensuite a gwely $\frac{3}{4}$ (4 troedfedd)
- Fflatiau ar gyfer 6-10 o fyfyrwyr
- Cegin/ardal fwyta/lolfa i'w rhannu
- Llety hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Mae gan bob fflat Deledu Freeview gyda thrwydded wedi'i thalu
- Un ystafell yn addas ar gyfer pobl gyda nam ar y clyw

Gogledd Tal-y-bont

Cyfleusterau

- 972 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ensuite
- Fflatiau ar gyfer 6 o fyfyrwyr
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Opsiwn Ôl-raddedig 'a Mwy'
- Rhai fflatiau wedi'u cadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg sydd yn dymuno cael eu grwpio gyda'i gilydd
- Opsiwn byw'n dawel
- Opsiwn di-alcohol
- Opsiwn LHDT+
- 130 o fannau parcio
- 6 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw

Cyfeirnod map

53

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



Ro'n i'n falch iawn fy mod i

wedi dewis Talybont y gogledd gan ei bod yng nghanol y bwrlwm. Mae'r ganolfan chwaraeon a'r gampfa hefyd yn agos iawn at y llety ac roedd hyn yn gyfleus iawn imi yn ystod y sesiynau hyfforddi gyda'r nos"

Sunaina

De Tal-y-bont

Cyfleusterau

- 1252 o ystafelloedd gwely astudio deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ensuite
- Fflatiau ar gyfer 4-8 o fyfyrwyr
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Opsiwn LHDT+
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- 2 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw



Cyfeirnod map

54

Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✓
Cyplau	✗
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



De Tal-y-bont yw'r lle gorau

i gwrdd â phobl newydd ac mae wrth law campysau eraill hefyd. Mae gan ein fflat yr holl gyfleusterau sydd eu hangen arnon ni. Lle gwyh yw'r ceginau i gymdeithasu cyn mynd allan. Bydd bob amser grwpiau'n cerdded i ddarlithoedd ac i mewn i'r ddinas.

Monica

Neuadd y Brifysgol

Mae Neuadd y Brifysgol yn neuadd hunanarlwyo sydd wedi'i lleoli llai na 2 filltir o'r prif gampws ac ychydig dros 1 filltir o Gampws Parc y Mynydd Bychan. Mae'n sefyll yn ei thir helaeth, dymunol ei hun gan edrych dros y ddinas. Mae'r neuadd yn cynnig llety i 673 o fyfyrwyr ac mae ganddi hefyd nifer fechan o breswylfeydd addas i gyplau a theuluoedd.

Cyfeirnod map 51	
Israddedigion	✓
Ôl-raddedig	✗
Cyplau	✓
Teuluoedd	✗
Prif Adeilad	0.5 milltir
Campws Parc y Mynydd Bychan	1.75 milltir



Cyfleusterau

- Amrywiaeth o ystafelloedd gwely deiliadaeth sengl gyda chyfleusterau ystafell ymolchi i'w rhannu neu ensuite
- Cegin/ardal fwyta a rennir
- Opsiwn byw'n dawel
- Mae gan bob ystafell bwynt cysylltu â rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i Wi-Fi
- Ystafell golchi dillad
- 65 o fannau parcio
- Gwasanaeth bws astudio i'r Prif Gampws ac i Gampws Parc y Mynydd Bychan heb orfod talu'n ychwanegol amdano (am wybodaeth ar ddyddiadau/amseroedd, gwiriwch ein gwefan)
- 4 ystafell wely addas ar gyfer y rheiny gyda nam ar y clyw
- Man astudio/cymdeithasol
- Ardal gemau aml-ddefnydd awyr agored (MUGA)

Agosaf

Siop: Pen-y-lan

Bar: Heol Wellfield

Bwyd cyflym: Heol Wellfield

Archfarchnad: Rhodfa Colchester

Rwy wrth fy modd yn byw yn Neuadd y Brifysgol oherwydd bod cymuned wych o bobl yno. Rwy wedi gwneud cymaint o ffrindiau o flociau gwahanol. Mae'n lle gwyh i fynd am dro braf, fel o amgylch Parc y Rhath."

Sylvie

Map o'r campws

Mae'r adeiladau academiaidd, y llyfrgelloedd, Undeb y Myfyrwyr, y rhan fwyaf o'r neuaddau preswyl a chanol y ddinas o fewn pellter cerdded agos i'w gilydd.

Adeiladau'r Brifysgol (* yn dynodi'r prif safle)	
Pensaerniaeth	6
Biowyddorau	1, 2
Busnes	28, 29, 30
Canolfan Bywyd y Myfyrwyr	11
Canolfan Cefnogi Myfyrwyr	11
Canolfan Cyfleoedd Byd-eang	11
Canolfan Diogelwch	2
Canolfan Gofal Dydd	16
Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC)	33
Canolfan Ymchwil Drosi	35
Caplaniaeth	10
Cemeg	1*, 9
Cerddoriaeth a Neuadd Gyngerdd y Brifysgol	24, 25
Chwaraeon	
• Y Ganolfan Ffitrwydd a Datblygiad Corfforol	15
• Pentref Hyfforddiant Chwaraeon	36
Cyfrifiadureg a Gwybodeg	18*, 21
Cymraeg	27
Cyrsiau Rhan-amser i Oedolion	20
Daearyddiaeth a Chynllunio	7
Deintyddiaeth	76

Preswylfeydd	
De Tal-y-bont	54
Gogledd Tal-y-bont	53
Llys Cartwright	57
Llys Senghennydd	63
Llys Tal-y-bont	55
Neuadd Aberconwy	58
Neuadd Aberdâr	60
Neuadd y Brifysgol	51
Neuadd Colum	59
Neuadd Gordon	64
Neuadd Hodge	61
Neuadd Roy Jenkins	56
Neuadd Senghennydd	62
Porth Tal-y-bont	52
Tŷ Clodien	50

Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol	5
Ffiseg a Seryddiaeth	21
Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth	4*, 8
Y Gwyddorau Cymdeithasol	7*, 11, 17
Y Gwyddorau Gofal Iechyd	22, 79, 80
Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr	1
Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd	11
Hanes, Archaeoleg a Chrefydd	27
Ieithoedd Modern	8
Mathemateg	18
Meddygaeth	78, 83
Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant	35
Optometreg a Gwyddorau'r Golwg	31
Peirianeg	21
Prif Adeilad	1
Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth	27
Sbarc Spark	34
Seicoleg	3*, 9
Undeb y Myfyrwyr	14



Cyfarwyddiadau

Cewch gyfarwyddiadau manwl ar gyfer pob cam o'ch taith i Gaerdydd yn:

www.cardiff.ac.uk/cy/visit/directions

Codau post ar gyfer teclynnau llywio â lloeren

Parc Cathays – Prif Adeilad: CF10 3AT

Campws Parc y Mynydd Bychan: CF14 4XN



Sganiwch y côd QR i gael gwybod rhagor.



I ORLLEWIN YR M4
(CYFFORDD 32),
PONTYPRIDD,
MERTHYR TUDFUL,
PEN-Y-BONT A'R
OGWR AC ABERTAW

PARC Y
MYNYDD BYCHAN

LLWYBR MYNEDD
AT GAMPWS PARC
Y MYNYDD BYCHAN

LLYN
Y RHATH

I DDWYRAIN YR M4
(CYFFORDD 33),
CASNEWYDD, BRYSTE
A LLUNGAN

LLWYBR MYNEDD
AT NEUADAU
FREDWYLL TAL-Y-BONT

LLWYBR MYNEDD
AT GAMPWS
PARC CATHAYS

MYNWEIT
CATHAYS

GABALFA

CAEAU
PONTCANNA

CAEAU
BLACKWEIR

PONTCANNA

CATHAYS

PARC
BUTE

CATHAYS

FR A48 A DDWYRAIN YR
M4 (CYFFORDD 25),
CASNEWYDD, BRYSTE
A LLUNGAN

TREGANNA

GLAN YR AFON

PARC
NINIAN

A4232 I BENARTH
A'R BARR

CAERDYDD
CANOLOG

GLANFAR
IWERYDD



Eich camau nesaf

Cyflwyno cais am lety'r brifysgol

Nawr eich bod wedi cael blas ar ein llety a pha un sy'n well gennych chi, rydych chi'n gwybod beth i'w bacio ac rydych chi'n edrych ymlaen at gwrdd â'n tîm bywyd preswyl - beth yw eich camau nesaf?

Rydyn ni'n gwarantu llety i ddarpar fyfyrwyr israddedig sy'n astudio am y sesiwn academiaidd lawn ac sydd wedi cael cynnig cadarn, ac i ôl-raddedigion rhyngwladol sy'n cyrraedd ym mis Medi, cyn belled â bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno mewn pryd.

Os ydych chi wedi derbyn cynnig i astudio gyda ni, nawr gallwch chi wneud cais am eich llety ym Mhrifysgol Caerdydd ac anfon eich dewisiadau aton ni. Gallwch chi wneud hyn trwy borth ar-lein SIMS a byddwch chi angen eich enw defnyddiwr a chyfrinair. Byddwch chi wedi cael y rhain dros e-bost yn fuan ar ôl i ni dderbyn eich cais. Sganiwch y côd QR i ddechrau.

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Cysylltu â ni

Tŷ Southgate
Bevan Place
Caerdydd CF14 3UX

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4849**

E-bost: **residences@cardiff.ac.uk**

Gwefan:

**[www.cardiff.ac.uk/cy/study/
accommodation](http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/accommodation)**

Mae'r Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i sicrhau bod yr wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, yn anochel bydd newidiadau yn cael eu gwneud o bryd i'w gilydd.

Felly, ddylech chi ddim dibynnu ar y canllaw hwn yn unig a dylech chi ymweld â'r wefan

www.caerdydd.ac.uk/cy/residences
am yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae pethau gwych yn digwydd ym Mhrifysgol Caerdydd

Ond does dim rhaid i chi gymryd ein gair ni amdano. Mae ein tîm o Fyfyrwyr sy'n Blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n dod â'u hawgrymiadau a'u cyngor gorau i chi ar gyfer symud i'r brifysgol, llywio'ch bywyd newydd a gwneud y gorau o'r ddinas anhygoel hon. Tra byddwch chi'n aros am fis Medi i gyrraedd, darllenwch ein blog a dechrau creu'ch rhestr o bethau angenrheidiol i'w gwneud yng Nghaerdydd.

Rydyn ni'n edrych ymlaen atoch chi'n ymuno â ni.